# Croeso i Brifysgol Aberystwyth - darllen Llyfrau Prin a Chasgliadau Arbennig

- Mae gan yr Aelod o Staff Prifysgol Aberystwyth (PA) sy'n goruchwylio'r archifau awdurdod i benderfynu faint o ddogfennau i'w rhoi i ddefnyddiwr ar unrhyw adeg benodol (fel rheol caniateir un blwch neu 3 eitem unigol ar unrhyw adeg benodol).
- Ni ddylid ail-drefnu na gosod eitemau mewn trefn wahanol i'r drefn y'u cynhyrchwyd. Gofynnir i ddarllenwyr roi gwybod i'r staff os yw'n ymddangos bod unrhyw ddeunydd yn y lle anghywir neu yn y drefn anghywir.
- Ni chaniateir cotiau, bagiau dogfennau, bagiau na chynhwysyddion amgaeedig yn yr ardal ymchwil dan oruchwyliaeth. Rhowch unrhyw eiddo personol o'r fath yn y locer darparwyd os gwelwch yn dda.
- Dylid gwneud nodiadau mewn pensil yn unig (ni chaniateir inciau, hylif cywiro na beiros o unrhyw fath ger y deunydd archifol). Ni ddylid marcio'r dogfennau mewn unrhyw fodd.
- Peidiwch â phwyso ar y dogfennau i'w cadw'n wastad neu i wneud nodiadau.
- Mae gobennydd llyfr ar gael ar gyfer gorffwys eitemau bregus, mawr neu wedi'u rhwymo'n dynn.
- Golchwch eich dwylo gyda dŵr a sebon, nid gyda gel, a gwnewch yn siŵr eich bod yn eu sychu'n drwyadl.
- Sicrhewch fod eich dwylo'n lân a cheisiwch beidio â chyffwrdd na thrin y tudalennau yn fwy na'r angen gan y gall asidau ac olewau yn y croen niweidio'r papur. Nid oes angen gwisgo menig.
- Caewch y llyfr os nad yw'n cael ei ddefnyddio.
- Ni chaniateir ysmygu, bwyta, nac yfed yn yr ardal ymchwil dan oruchwyliaeth.
- Rhaid gwisgo mwgwd yn unol â chanllawiau COVID-19 (oni bai eich bod wedi'i eithrio ar sail iechyd).
- Nid ellir benthyg unrhyw ddeunydd archifol.
- Ni ddylid mynd ag unrhyw ddogfennau allan o'r ardal ymchwil dan oruchwyliaeth.
- Caniateir gliniaduron (ar yr amod nad ydynt yn tarfu ar ddarllenwyr eraill).
- Mae PA yn cadw'r hawl i atal eitemau rhag cael eu defnyddio ar sail gadwraethol.
- Caniateir tynnu ffotograffau heb fflach.
- Mae PA yn cadw'r hawl i wrthod darparu atgynyrchiadau ar sail gadwraethol.
- Mae'n bosib y cyfyngir mynediad at rai deunyddiau sensitif yn unol â pholisïau PA.
- Mae'n rhaid gadael yr adeilad pan fydd y **larwm tân** yn seinio nes hysbysir yn wahanol. Mae'r man ymgynnull tu allan ar y Piazza o flaen y Ganolfan Celfyddydau.

Papur - Mae'n rhaid ymdrin â'r eitem yn ofalus iawn os yw'r papur yn troi'n frown, yn denau iawn neu'n malu'n rhwydd.

Rhwymiad - Dros amser mae'r glud, lledr, papur, lliain a'r llinyn yn mynd yn fregus neu'n treulio. Y ddau bwynt gwannaf yw'r colfachau ble mae'r byrddau'n cwrdd â'r meingefn, a'r meingefn ei hun. Mae'r ddau yn dueddol o gracio'n rhwydd. Er mwyn diogelu'r rhwymiad y dechneg gorau yw agor y llyfr cyn lleied â phosibl gan gefnogi'r meingefn a'r byrddau fel na fyddant yn gorblygu.

---

## DATGANIAD Y DARLLENWR

Yr wyf wedi darllen, deall ac yn cytuno i gadw at yr amodau a nodir uchod. Deallaf, os na fyddaf yn cydymffurfio â'r amodau hyn, y gellir gwrthod mynediad at y deunydd archifol.

Llofnod………………………………………………………………................Dyddiad……………..........….........
ENW
(priflythrennau)……………………………………………………………………………..................................
LOGIN PA ..............................CYFEIRIAD / ADRAN.........................................................................
……………………………………………………………………………………………..……………………………..